

GWEDDI EWCHARISTAIDD 3

Yr Arglwydd a fo gyda chwi -
A chyda thithau.

Dyrchafwn ein calonnau -
Yr ydym wedi'u dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw -
Addas a chyfiawn ydyw.

Rhaglith

**Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd,
 Arglwydd Dduw'r lluoedd.
 Mae'r nef a daear yn llawn o'th ogoniant.
 Hosanna yn y goruchaf.
 Bendigedig yw'r hwn sy'n dod yn enw'r Arglwydd.
 Hosanna yn y goruchaf.**

Gwir sanctaidd wyt ti, Arglwydd,
 ac addas yw i'th holl greadigaeth dy foliannu,
 oherwydd trwy Iesu Grist, dy Fab, ein Harglwydd,
 ac yn nerth yr Ysbryd Glân,
 yr wyt yn bywhau ac yn sancteiddio'r cyfan oll,
 gan gasglu'n ddibaid bobl atat dy hun,
 fel o godiad haul hyd ei fachlud yr offrymir i'th enw offrwm pur.



Edrych, Arglwydd, o'th dosturi ar y rhoddion hyn
 yr ydym wedi eu dwyn ger dy fron i'w cysegru i ti.
 Sancteiddia hwy drwy dy Ysbryd,
 fel y byddant yn gorff ✠ a gwaed dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist,
 yr ydym ar ei orchymyn yn gweinyddu'r dirgeleddau hyn.



Oblegid y noson y bradychwyd ef,
 fe gymerodd fara, a chan ddiolch iti a'th fendithio,
 fe'i torrodd a'i roddi i'w ddisgyblion, gan ddweud:



**CYMERWCH, BWYTEWCH OHONO BAWB:
HWN YW FY NGHORFF A RODDIR DROSOCH.**



Yr un modd, wedi bwyta,
cymerodd y cwpan rhagorol hwn yn ei ddwylo sanctaidd,
a chan ddiolch i ti a bendithio drachefn,
fe'i rhoddodd i'w ddisgyblion, gan ddweud:



**CYMERWCH, YFWCH OHONO BAWB:
HWN YW CWPAN FY NGWAED
O'R CYFAMOD NEWYDD A THRAGWYDDOL,
A DYWELLTIR DROSOCH CHWI A THROS BAWB
ER MADDEUANT PECHODAU.
GWNEWCH HYN ER COF AMDANAF.**



Dyma ddirgelwch y Ffydd:

**1 Cyhoeddwn dy farwolaeth, Arglwydd,
addefwn dy atgyfodiad nes i ti ddod.**



Neu:

**2 Bob tro y bwytawn y bara hwn ac yfed y cwpan,
cyhoeddwn dy farwolaeth, Arglwydd, nes i ti ddod.**

Neu:

**3 Iachawdwr y byd, iachâ ni;
trwy dy groes a'th atgyfodiad, yr wyt wedi ein rhyddhau.**

Am hynny, Arglwydd, gan goffáu dioddefaint gwaredigol dy Fab,
a'i atgyfodiad nerthol a'i ddyrchafael i'r nef,
a chan ddisgwyl ei ddyfodiad drachefn,
yr ydym yn ddiolchgar yn offrymu i ti
yr aberth byw a sanctaidd hwn.

Edrych ar offrwm dy Eglwys,
a chan arddel yr aberth a arfaethaist ti dy hun,
caniatâ i ni sy'n cyfranogi o gorff a gwaed dy Fab
gael ein cyflenwi â'r Ysbryd Glân,
a dod yn un corff ac un ysbryd yng Nghrist.

① Perffeithied yntau ni yn rhodd dragwyddol i ti,
fel y cawn dderbyn yr etifeddiaeth gyda'th bobl di,
gyda Mair, yn flaenaf, y Forwyn fendigaid, mam Duw,
y bendigaid Joseff hefyd, ei phriod,
gyda'th apostolion a'th ferthyron gogoneddus
(gyda Sant **E.**) a'r holl saint,
y mae eu gweddiâu bob amser yn gefn ac yn gymorth i ni ger dy fron.



② Bydded i'r aberth hwn sy'n ein cymodi ni â thi
ddod â heddwch ac iachawdwriaeth i'r holl fyd.



Nertha dy Eglwys bererin
ar y ddaear a'i chadarnhau mewn ffydd a chariad,
ynghyd â'th was ein Pab **E.**, a'n hesgob **E.**,
a'r holl esgobion, yr offeiriaid, a'th holl bobl.

Bydd gyda ni, dy deulu yma, a derbyn ein haddoliad.
Tosturia, Dad annwyl, wrth dy holl blant ar wasgar ym mhob man,
ac una hwy a thi dy hun.

③ Derbyn i'th deyrnas ein brodyr a'n chwiorydd
a phawb sy wedi ymadael a'r byd hwn yn dy ras.
Yno y gobeithiwn ninnau fod gyda hwy
a mwynhau cyflawnder dy ogoniant yn ddi-baid,
trwy Grist ein Harglwydd, yr wyt trwyddo'n rhoi pob daioni i'r byd.



Prif off. neu bawb

Trwyddo ef, a chydag ef, ac ynddo ef,
y mae i ti, Dduw Dad Hollalluog,
yn undod yr Ysbryd Glân,
bob anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd.

Amen.

③

Cofia dy was **E.**, a elwaist (heddiw) atat ti o'r byd hwn.



Dydo iddo ac yntau wedi ei uno trwy fedydd a marwolaeth dy Fab,...

Cofia dy lawforwyn **E.**, a elwaist (heddiw) atat ti o'r byd hwn.



Dydo iddi a hithau wedi ei huno trwy fedydd a marwolaeth dy Fab,...

... ddod yn un hefyd â'i atgyfodiad,
pan fydd ef yn cyfodi'r meirw yn y cnawd o'r ddaear,
a newid ein corff gwael ni i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef.

Derbyn i'th deyrnas ein brodyr a'n chwirydd a
phawb sydd wedi ymadael â'r byd hwn yn dy ras;
yno y gobeithiwn ninnau fod gyda hwy
a mwynhau cyflawnder dy ogoniant yn ddi-baid,
pan fyddi'n sychu pob deigr yn oddi wrth ein llygaid,
oblegid fe'th welwn di, ein Duw,
fel yr wyt, a byddwn n gyffelyb i ti trwy'r oesoedd,
a'th glodfori di yn ddiderfyn.

Trwy Grist ein Harglwydd, yr wyt trwyddo'n rhoi pob daioni i'r byd.



TRWY - DDO EF A CHYDAG EF, AC___ YN - DDO EF,

Y MAE I TI, DDUW DAD HOLLALLUOG, YN UNDDO YR YS BRYD GLAN

BOB ANRHYDEDD A GO-GO-NI-ANT YN___ OES___ OES -OEDD.

R. A-men.